

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

Llinell amser digwyddiadau hanesyddol, 1933-39

1933

- ***Y gwersyll crynhoi cyntaf yn agor*** - Mae'r term gwersyll crynhoi yn cyfeirio at wersyll lle mae pobl yn cael eu cadw, fel arfer o dan amodau llym a heb ystyried y normau cyfreithiol o arestio neu euogfarnu unrhyw drosedd yn dilyn proses farnwrol. Dachau oedd y gwersyll crynhoi cyntaf a sefydlwyd gan y llywodraeth Natsïaidd. Y bwriad yn wreiddiol oedd carcharu gwrthwynebwyr gwleidyddol y drefn newydd.

1936

- ***Gwersyll crynhoi Sachsenhausen yn agor*** - Hwn oedd y prif wersyll crynhoi ar gyfer ardal Berlin.

1938

- ***Yr Almaen yn cyfeddiannu Awstria*** - Aeth milwyr yr Almaen i mewn i Awstria ar 12 Mawrth 1938. Y diwrnod wedyn, cyfeddiannodd yr Almaen y wlad yn swyddogol ac ymgorfforwyd Awstria yn y Drydedd Reich. Yr *Anschluss* yw enw'r digwyddiad hwn.
- ***Cynhadledd Evian ar ffoaduriaid*** - Ar ôl i'r Almaen gyfeddiannu Awstria, dechreuodd argyfwng ffoaduriaid. Gwnaeth degau o filoedd o Iddewon yr Almaen ac Awstria gais i fewnfudo i wledydd y tu allan i Ewrop. Cyfarfu diplomyddion a chynrychiolwyr o 32 o wledydd yn Evian-les-Bains, Ffrainc, ym mis Gorffennaf 1938 i drafod yr argyfwng ffoaduriaid. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr fod eu gwlad yn cydymdeimlo ond na fyddent yn derbyn mwy o ffoaduriaid. Honnodd rhai y byddai cynnydd mewn mewnffudo yn niweidio eu heconomi, tra dywedodd eraill nad oeddent eisiau Iddewon.
- ***Iddewon Pwylaidd yn cael eu hallgludo o'r Almaen*** - Fe wnaeth yr Almaen Natsïaidd ddiarddel tua 17,000 o Iddewon o'r Almaen ym 1938. Roedd y rhan fwyaf ohonyn nhw wedi byw yn yr Almaen ers blyneddau ond yn ddinasyddion Pwylaidd. Nid oedd Gwlad Pwyl yn fodlon derbyn yr Iddewon, felly cawsant eu rhoi mewn tir neb rhwng y gwledydd ac yn y pen draw mewn gwersylloedd ffoaduriaid.
- ***Kristallnacht*** - Ar 9-10 Tachwedd 1938, rhyddhaodd arweinwyr y Natsïaid gyfres o pogromau (neu derfysgoedd) treisgar yn erbyn y boblogaeth Iddewig yn yr Almaen a thiriogaethau a gyfeddiannwyd yn ddiweddar. Daeth y digwyddiad hwn i gael ei adnabod fel *Kristallnacht* (Noson y Gwydr Toredig) oherwydd y gwydr drylliedig a oedd wedi'i wasgaru ar y strydoedd ar ôl fandaliaeth a dinistr busnesau, synagogau a chartrefi oedd yn eiddo i Iddewon. Arestwyd tua 30,000 o ddynion a bechgyn Iddewig a'u hanfon i wersylloedd crynhoi. Cafodd ychydig llai na 100 o bobl Iddewig eu llofruddio yn y pogrom.

Gweithgaredd 5: Yr Effaith Gyfreithiol: Sut Gall Cyfreithiau Erlid neu Ddiogelu

Llinell amser digwyddiadau hanesyddol, 1933-39

1938 (parhad)

- **Kindertransport** (Cludiant Plant) - Dyma oedd enw anffurfiol cyfres o ymdrechion achub rhwng 1938 a 1940 a ddaeth â phlant Iddewig o diriogaeth a a oedd wedi'i reoli gan y Natsïaid i ddiogelwch. Anfonodd rhieni Iddewig eu plant ar gludiant wedi'i drefnu i fyw mewn cartrefi plant, gyda theuluoedd maeth, neu gyda pherthnasau pell ym Mhrydain Fawr, yr Iseldiroedd, neu Ffrainc. Daeth ymdrechion Kindertransport â thua 10,000 o blant i ddiogelwch ym Mhrydain Fawr.

Ffynonellau

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopedia: 1938: Key Dates* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/1938-key-dates>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Narrative through Historical Photos* <<https://www.ushmm.org/m/pdfs/USHMM-Holocaust-Narrative-Photos.pdf>> [cyrchwyd 7 Mawrth 2022]

